# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 26 Tachwedd 2020 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 27 Tachwedd 2020 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 4 Rhagfyr 2020 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai

---

**PWNC** Prydlesu Swyddfa yng Nghanolfan Fusnes Gogledd Cymru ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru

---

**PENDERFYNIAD –** I gymryd prydles o'r gofod swyddfa a adnabyddir fel Uned 12a, Ganolfan Fusnes Conwy ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 26/11/2020 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Prydlesu Swyddfa yng Nghanolfan Fusnes Gogledd Cymru ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I gymryd prydles o’r gofod swyddfa a adnabyddir fel Uned 12a, Ganolfan Fusnes Conwy ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, a hynny ar delerau ac amodau i’w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Gweithredu yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu ac yn cyd-lynu Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru ar ran chwe awdurdod lleol. Mae’r Bartneriaeth yn gyfrifol am greu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol er mwyn dadansoddi a dylanwadu ar ddarpariaeth sgiliau'n seiliedig ar angen economaidd rhanbarthol.

Mae Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel un o dair partneriaeth sgiliau rhanbarthol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grant blynyddol er mwyn cwrdd â chostau’ craidd y bartneriaeth, a hynny i gynnwys ariannu gofod swyddfa.

Mae’r angen am ofod swyddfa ar gyfer y Bartneriaeth wedi ei adnabod. Yn ei gyfarfod ar 21ain o Fedi 2020, penderfynodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gefnogi’r bwriad i leoli staff i Ganolfan Busnes Conwy. Mae’n lleoliad cyfleus, yn gymharol ganolog i’r rhanbarth ac mae staff Rhaglen Twf Gogledd Cymru hefyd wedi eu lleoli yno, ac ystyrir fod cyfle i gyd-weithio.

Yn yr achos yma bydd Cyngor Gwynedd yn dal y brydles ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, ond fe ariennir yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r brydles yn gyfan gwbl o gyllideb y Bartneriaeth.

Nid oes bwriad i dalu mwy na rhent y farchnad am y swyddfa.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

Prif Swyddog Cyllid – "Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

Swyddog Monitro – "Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cynghori ar y mater yma. Dim sylwadau i'w hychwanegu o ran priodoldeb."

Aelod/au Lleol – Nid yw'n fater lleol.